# Darparu triniaethau amlder radio cosmetig

## Trosolwg

Mae'r safon hon yn ymwneud ag amlder radio i ddibenion cosmetig i wella cyflwr croen y corff a'r wyneb. Mae'n trafod y sgiliau sydd ynghlwm wrth ddarparu ymgynghoriad trylwyr gyda'r cleient i sefydlu addasrwydd y cleient ar gyfer triniaeth a ffurfio cynllun triniaeth penodol sy'n addas i anghenion y cleient unigol. Mae gallu i ddarparu cyngor ôl-ofal perthnasol hefyd yn ofynnol.

Er mwyn cynnal y safon hon bydd angen i chi gynnal iechyd, diogelwch a hylendid effeithiol trwy gydol eich gwaith. Bydd angen i chi hefyd gynnal eich ymddangosiad personol a dangos sgiliau cyfathrebu ac ymgynghori effeithiol.

**Prif ganlyniadau'r safon hon yw:**

1. cynnal dulliau diogel ac effeithiol o weithio wrth ddarparu triniaethau amlder radio cosmetig
2. ymgynghori, cynllunio a pharatoi ar gyfer triniaethau
3. cyflawni triniaethau amlder radio cosmetig

## Meini prawf perfformiad

*Rhaid i chi allu:*

**Cynnal dulliau diogel ac effeithiol o weithio wrth ddarparu triniaethau amlder radio cosmetig**

*

*1. cynnal eich cyfrifoldebau dros iechyd a diogelwch trwy gydol y driniaeth

1. paratoi a diogelu'ch cleient a'ch hun i fodloni gofynion cyfreithiol a sefydliadol
2. sicrhau urddas a phreifatrwydd eich cleient ar bob amser
3. gosod eich cleient mewn safle i fodloni anghenion y driniaeth heb achosi iddynt deimlo'n anghysurus
4. sicrhau bod eich ystum eich hun a'ch dulliau gwaith yn isafu ar flinder a risg o anaf i chi'ch hun ac eraill
5. sicrhau bod amodau amgylcheddol yn addas i'r cleient a'r driniaeth
6. defnyddio dulliau gwaith sy'n isafu ar risg o groes-heintio a niwed neu anaf i chi'ch hun ac eraill
7. sicrhau y defnyddir offer a deunyddiau glân
8. hyrwyddo arferion gwaith amgylcheddol a chynaliadwy
9. dilyn cyfarwyddiadau'r gweithle a chyflenwyr neu gynhyrchwyr ar ddefnydd diogel ar gyfarpar, deunydd a chynnyrch
10. cael gwared ar ddeunydd gwastraff i fodloni gofynion cyfreithiol
11. cynnal y driniaeth o fewn amser sy'n ymarferol yn fasnachol

**Ymgynghori, cynllunio a pharatoi ar gyfer triniaethau**

1.
defnyddio **technegau ymgynghori** i bennu cynllun triniaeth y cleient
2.
nodi hanes meddygol, nodweddion croen, **amcanion trin, ardaloedd i'w trin**, cyflwr y croen a sensitifrwydd y cleient
3.
adnabod unrhyw wrtharwyddion a chymryd **camau angenrheidiol**
4.
cymryd lluniau cyn y driniaeth o'r **mannau i'w trin** gan ddilyn gweithdrefnau sefydliadol
5.
esbonio teimlad corfforol y driniaeth a golwg y croen wedi'r driniaeth i'r cleient
6.
cyflawni profion thermol a chyffyrddol i wirio ymateb croen y cleient i wres ac ysgogiadau gwasgedd
7.
nodi anghenion, disgwyliadau ac **amcanion triniaeth** y cleient, a chytuno arnynt gyda'r cleient
8.
sicrhau caniatâd gwybodus, wedi'i lofnodi gan y cleient cyn cynnal y driniaeth
9.
dewis **offer** a chynnyrch cysylltiedig i weddu i **amcanion y driniaeth**

**Cyflawni triniaethau amlder radio cosmetig**

1.
sicrhau bod yr **ardaloedd i'w trin** yn lân ac wedi eu taenu â digon o gyfrwng cynnyrch cyswllt cyn triniaeth
2.
defnyddio'r gosodiadau a'r taenwyr triniaeth gofynnol sy'n addas i **amcanion y driniaeth** ac **ardaloedd i'w trin**
3.
sicrhau bod y taenwyr yn parhau i fod mewn cysylltiad â'r croen trwy gydol y driniaeth
4.
gweithio'n systematig i orchuddio'r **ardaloedd i'w trin** gan ddefnyddio symudiadau yn y cyfeiriad gofynnol
5.

addasu dwyster a hyd y driniaeth pilio i weddu i **nodweddion croen** a **chyflwr corff** y cleient

6.

monitro adwaith y croen ac ymateb y cleient a rhoi'r gorau i'r driniaeth os ceir adweithiau andwyol

7.

gadael yr ardal wedi'i thrin yn lân, wedi'i lleithio a'i diogelu gyda chynnyrch diogelu rhag yr haul

8.

cwblhau'r driniaeth trwy droi'r system amlder radio cosmetig yn ôl i'r modd anweithredol

9.

cymryd lluniau wedi'r driniaeth o'r man a driniwyd gan ddilyn gweithdrefnau sefydliadol

10.

rhoi **cyngor ac argymhellion** i'ch cleient ar y driniaeth a ddarparwyd

11.

sicrhau bod cofnodion y cleient yn cael eu cwblhau a'u llofnodi gennych chi a'r cleient

## Gwybodaeth a dealltwriaeth

*Mae angen i chi wybod a deall:*

**Cynnal dulliau diogel ac effeithiol o weithio wrth ddarparu triniaethau amlder radio cosmetig**

1. eich cyfrifoldebau dros **iechyd a diogelwch** fel y diffinnir gan unrhyw ddeddfwriaeth benodol sy'n berthnasol i'ch swydd

1.
y rhesymau dros wirio canllawiau yswiriant cyfredol ar gyfer darparu triniaethau amlder radio cosmetig

2.
y gofynion cyfreithiol a sefydliadol ar gyfer diogelu a pharatoi cleient

3.
pwysigrwydd hylendid personol, amddiffyniad a chyflwyniad o ran cynnal iechyd a diogelwch yn eich gweithle

4.
pam ei bod yn bwysig i gynnal urddas a phreifatrwydd eich cleient

5.
sut y gall safle eich cleient a chithau effeithio ar y canlyniad a dymunir a lleihau blinder ar risg o anaf

6.
amodau amgylcheddol angenrheidiol ar gyfer triniaethau, megis gwresogi ac awyru a pham bod y rhain yn bwysig

7.
dulliau glanhau, diheintio a sterileiddio

8.
pam ei bod yn bwysig osgoi traws heintio uniongyrchol ac anuniongyrchol trwy weithio'n ddiogel ac yn lanwaith

9.
y peryglon a'r risgiau sy'n gysylltiedig â chyflawni triniaethau amlder radio cosmetig a sut y gellir lleihau'r rhain

10.
y gwahanol fathau o ddulliau gwaith sy'n hyrwyddo **arferion gwaith amgylcheddol a chynaliadwy**

11.
cyfarwyddiadau cyflenwyr a chynhyrchwyr ar gyfer defnydd diogel ar gyfarpar, deunydd a chynnyrch y mae'n rhaid i chi eu dilyn
12.
y gofynion cyfreithiol ar gyfer cael gwared ar wastraff
13.
y rhesymau dros gwblhau'r gwasanaeth o fewn amser sy'n ymarferol yn fasnachol

**Ymgynghori, cynllunio a pharatoi ar gyfer triniaethau**

1.
pwysigrwydd cyfathrebu gyda chleientiaid mewn modd proffesiynol
2.
sut i gynnal ymgynghoriad gan ystyried **anghenion amrywiol** y cleient
3.
y rhesymau pam na ddylid cyflawni triniaethau amlder radio ar gleientiaid dan 18 oed
4.
pwysigrwydd cytuno ar driniaeth sy'n bodloni anghenion y cleient
5.
arwyddocâd cyfreithiol dros sicrhau caniatâd gwybodus, wedi'i lofnodi gan gleient i driniaeth
6.
y gofynion deddfwriaethol ar gyfer storio a diogelu data cleient
7.
sut i adnabod **gwrtharwyddion** a fyddai'n atal neu'n cyfyngu ar y driniaeth a pham
8.
y gwrtharwyddion sy'n gofyn am atgyfeiriad meddygol a pham
9.
y camau angenrheidiol i'w cymryd mewn perthynas â gwrtharwyddion penodol wrth gyfeirio cleientiaid
10.
pwysigrwydd a'r rhesymau dros beidio ag enwi gwrtharwyddion penodol wrth atgyfeirio cleientiaid
11.
sut i nodi'r nodweddion croen ac amodau corfforol a fyddai'n elwa o driniaethau amlder radio cosmetig
12.

pwysigrwydd cynhyrchu tystiolaeth ffotograffig cyn ac wedi triniaeth yn unol ag arferion sefydliadol

13.

y gweithdrefnau ar gyfer cyflawni profion thermol a chyffyrddol ar y cleient a pham ei bod yn bwysig

14.

sut i ddisgrifio teimlad corfforol y driniaeth i'r cleient

15.

paratoi offer a chynnyrch ar gyfer triniaethau amlder radio cosmetig

**Cyflawni triniaethau amlder radio cosmetig**

1.

pwysigrwydd glanhau'r croen cyn y driniaeth

2.

y rhesymau dros ddefnyddio cyfrwng cynnyrch cyswllt ar y cyd â thriniaethau amlder radio cosmetig

3.

sut i ddefnyddio ac addasu defnydd o offer amlder radio cosmetig i weddu i wahanol fathau o groen, amodau corfforol ac amcanion triniaeth

4.

yr effeithiau corfforol a grëwyd gan offer amlder radio cosmetig

5.

sut mae amlder radio cosmetig yn cael ei fesur a'i berthynas â'r sbectrwm electromagnetig

6.

amlder radio cosmetig a rhyngweithio gyda meinwe

7.

y gwahaniaeth rhwng amlder radio cosmetig un pegwn, deubegwn a thri phegwn

8.

y mathau o driniaethau y gellid eu rhoi ar y cyd ag, neu wedi, triniaethau amlder radio cosmetig

9.

defnydd a chyfyngiadau cynnyrch ac offer a ddefnyddir ar gyfer triniaethau amlder radio cosmetig

10.

**anatomi a ffisioleg** y croen a'r wyneb

11.

**adweithiau** posibl a allai ddigwydd, sut i ddelio â hwy a pha gyngor i'w roi i gleientiaid

12.

y mathau o gynnyrch ôl-driniaeth sydd ar gael a manteision eu defnyddio

13.

y **cyngor a'r argymhellion** ar gynnyrch a gwasanaeth

## Cwmpas/Ystod cysylltiedig â meini prawf perfformiad

### Technegau ymgynghori

1. holi
2. gwrando
3. edrych
4. teimlo
5. ysgrifenedig

### Amcanion y driniaeth

1. lleihau mân linellau a chrychau
2. gwella cyflwr y croen
3. amlinellu'r corff
4. tynhau croen yr wyneb
5. gwella gwedd llid yr isgroen
6. lleihad cylchedd

### Mannau i'w trin

1. wyneb
2. gwddf
3. abdomen
4. pengliniau

5.
cluniau
6.
pen ôl
7.
bonion breichiau

**Camau angenrheidiol**

1.
esbonio pam na ellid cynnal y driniaeth
2.
annog y cleient i geisio cyngor meddygol
3.
addasu'r driniaeth

**Cyfarpar**

1.
dyfais amlder radio cosmetig yn unig
2.
dyfais amlder radio cosmetig gyda sugnedd gwactod
3.
taenwr wyneb
4.
taenwr corff

**

Nodweddion Croen**

1.
lefel sensitifrwydd
2.
trwch
3.
lefelau hydradu

**Cyflyrau corfforol**

1.
llid yr isgroen

2.
dyddodion braster anwastad
3.
diffygion amlinellu'r corff
4.
llacrwydd croen

**Cyngor ac argymhellion**

1.
cynnyrch ôl-ofal addas a'u defnydd
2.
osgoi gweithgareddau a allai achosi adweithiau
3.
y cyfnodau amser a argymhellir rhwng triniaethau
4.
cynnyrch a thriniaethau yn awr ac yn y dyfodol

## Cwmpas/Ystod cysylltiedig â gwybodaeth a dealltwriaeth

### Iechyd a diogelwch

1. Deddf Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith
2. Rheoliadau Adrodd ar Anafiadau, Clefydau neu Ddigwyddiadau Peryglus (RIDDOR)
3. Rheoliadau Iechyd a Diogelwch (Cymorth Cyntaf)
4. Gorchymyn Diwygio Rheoleiddio (Diogelwch Tân)
5. Rheoliadau Gweithredoedd Codi a Chario
6. Rheoliadau Rheoli Sylweddau Peryglus i Iechyd (COSHH)
7. Rheoliadau Trydan yn y Gweithle
8. Deddf Diogelu'r Amgylchedd
9. Y Rheoliadau Rheoli Iechyd a Diogelwch yn y Gweithle
10. Rheoliadau Iechyd a Diogelwch (Gwybodaeth i Gyflogeion)

### Arferion gwaith amgylcheddol a chynaliadwy

1. gostwng gwastraff a rheoli gwastraff (ailgylchu, ailddefnyddio, gwaredu diogel)
2. gostwng defnydd ar ynni (cyfarpar sy'n arbed ynni, goleuadau ynni isel, defnyddio paneli solar)
3. gostwng defnydd ar ddŵr ac adnoddau eraill
4. atal llygredd
5. defnyddio eitemau untro (tywelion hawdd eu sychu)

6.
defnyddio dodrefn wedi'u hailgylchu, ecogyfeillgar
7.
defnyddio paent â chemegau isel
8.
defnyddio pecynnau cynnyrch ecogyfeillgar
9.
dewis cynnyrch domestig cyfrifol (te a choffi Masnach Deg)
10.
annog siwrneion i'r gwaith sy'n gostwng carbon

**Anghenion amrywiol**

1.
diwylliannol
2.
crefyddol
3.
oed
4.
anabledd
5.
rhyw

**Gwrtharwyddion** sy'n atal

1.
clefyd siwgr
2.
afiechydon croen heintus
3.
camweithrediad y system nerfol
4.
clefyd/anhwylder y galon
5.
rheoliadur y galon
6.
unrhyw driniaethau yn ymwneud â chanser
7.

meinwe craith diweddar yn ardal y driniaeth
8.
lympiau heb ddiagnosis
9.
chwyddiadau a llidau
10.
meddyginiaethau sy'n achosi teneuo neu lid i'r croen megis steroidau a roaccutane
11.
diagnosis o scleroderma
12.
beichiogrwydd
13.
acne
14.
rosacea
15.
diffyg gweithrediad yr iau
16.
diffyg gweithrediad yr aren

**Gwrtharwyddion sy'n cyfyngu**

1.
epilepsi
2.
hanes o anhwylderau cylchredol
3.
pinnau neu blatiau metel
4.
mewnblaniadau ac IUDs (penodol i'r ddyfais a ddefnyddir)
5.
llanwyddion silicon neu dermol
6.
meddyginiaethau
7.
tyllau addurniadau corff
8.
gorbryder

9.
gwythiennau faricos
10.
toriadau
11.
crafiadau
12.
cleisiau
13.
sgrafellu'r croen neu driniaeth pilio cemegol diweddar
14.
IPL neu laser
15.
tocsinau botwlinwm
16.
epileiddio

**Anatomi a ffisioleg**

1.
strwythur a swyddogaethau'r croen
2.
amrywiaethau a lleoliad trwch y croen a gwaddodion meinwe blonegog o fewn gwahanol rannau o'r wyneb a'r gwddf
3.
strwythur a swyddogaeth y system lymffatig
4.
strwythur a swyddogaeth y system gylchredol
5.
rhyngweithio rhwng y lymff a gwaed yn y system gylchredol
6.
egwyddorion a swyddogaethau y systemau endocrin, treulio ac ysgarthol a pham bod y rhain yn berthnasol i driniaethau amlder radio cosmetig
7.
proses heneiddio'r croen yn cynnwys effeithiau geneteg, ffordd o fyw a'r amgylchedd
8.
proses synthesis colagen ac elastin yn cynnwys ysgogiad ffibroblastig

9.
proses wella'r croen
10.
ffisioleg a graddio llid yr isgroen
11.
strwythur a swyddogaeth celloedd blonegog a lipolysis
12.
effeithiau ffisiolegol a manteision triniaethau amlder radio cosmetig ar feinwe meddal a strwythurau ysgerbydol sylfaenol

**Adweithiau**

1.
cochni
2.
poen gormodol
3.
llid
4.
llosgiadau
5.
pothellu
6.
cleisio
7.
creithio
8.
llid
9.
adwaith alergaidd
10.
oedema gormodol
11.
gorbigmentiad

**Cyngor ac argymhellion**

1.
gwasanaethau ychwanegol

2.
cynnyrch ychwanegol
3.
newidiadau gweledol i'r croen ac amser adfer
4.
y ffactorau ffordd o fyw a newidiadau a allai fod yn ofynnol i wella effeithlonrwydd y driniaeth
5.
cyfyngiadau yn dilyn triniaeth ac anghenion triniaeth yn y dyfodol (yn cynnwys osgoi llanwyddion dermol, retinol argroenol)
6.
cynnyrch i'w defnyddio yn y cartref a fydd o fudd i'r cleient a'r rheini i osgoi a pham (yn cynnwys isafswm amddiffyniad croen UVA ac UVB SPF30)
7.
sut y gall arferion gofal croen, bwyta, yfed ac ymarfer corff presennol effeithio ar effeithlonrwydd y driniaeth
8.
adweithiau yn dilyn triniaeth a sut i ddelio â hwy
9.
cynnal a chadw parhaus i sicrhau'r canlyniadau gorau posibl
10.
pwysigrwydd rhoi cyngor gofal dilynol ysgrifenedig i'r cleient
11.
pwysigrwydd sicrhau bod y cleient yn derbyn pwynt cyswllt yn dilyn triniaeth
12.
manteision derbyn cwrs o driniaeth

## Gwerthoedd

Mae'r gwerthoedd allweddol a ganlyn yn sail i gyflwyno gwasanaethau yn y sectorau harddwch, ewinedd a sba

1. parodrwydd i ddysgu
2. agwedd hyblyg i weithio
3. gweithiwr tîm
4. agwedd bositif
5. moeseg bersonol a phroffesiynol

## Ymddygiadau

Mae'r ymddygiad a ganlyn yn sail i gyflwyno gwasanaethau yn y sectorau harddwch, ewinedd a sba. Mae'r ymddygiadau hyn yn sicrhau bod cleientiaid yn cael argraff gadarnhaol o'r sefydliad a'r unigolyn

1. bodloni safonau ymddygiad y sefydliad
2. cyfarch y cleient yn barchus ac mewn modd cyfeillgar
3. cyfathrebu gyda'r cleient mewn ffordd sy'n gwneud iddynt deimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi a'u parchu
4. trin y cleient yn gwrtais ac yn wasanaethgar bob amser
5. addasu'r ymddygiad i ymateb yn effeithiol i wahanol ymddygiad gan y cleient
6. gwirio gyda'r cleient eich bod chi wedi deall eu disgwyliadau yn llawn
7. ymateb yn brydlon ac yn gadarnhaol i gwestiynau a sylwadau'r cleient
8. adnabod gwybodaeth y gallai'r cleient ei chael yn gymhleth a gwirio a ydynt wedi

deall yn llawn

9.

esbonio'n glir wrth y cleient os na ellir bodloni eu hanghenion neu'u disgwyliadau am unrhyw reswm

10.

cynnal dulliau gwaith effeithiol, glân a diogel

11.

cadw at gyfarwyddiadau'r gweithle, y cyflenwyr a'r cynhyrchwyr wrth ddefnyddio cyfarpar, deunyddiau a chynnyrch yn ddiogel

12.

bodloni safonau ymddangosiad y sefydliad a'r diwydiant.

## Sgiliau

Mae'r sgiliau allweddol a ganlyn yn sail i gyflwyno gwasanaethau yn y sectorau harddwch, ewinedd a sba

1.

y gallu i hunan-reoli

2.

cyfathrebu llafar a di-eiriau gwych

3.

defnyddio'r ffyrdd mwyaf priodol o gyfathrebu gyda chleient

4.

ymateb yn brydlon i gleient sy'n gofyn am gymorth

5.

canfod gwybodaeth yn gyflym a fydd o gymorth i'r cleient

6.

rhoi gwybodaeth y mae ei hangen ar gleient am wasanaethau a chynnyrch a gynigir gan y sefydliad

## Geirfa

**Amlder radio (RF) deubegwn**

I ddibenion triniaethau esthetig, cyflenwir amlder radio deubegwn trwy osod dau electrod wedi eu lleoli'n ofalus i'r ardal i'w thrin. Mae'r cerrynt yn teithio o un electrod trwy'r meinwe ac yn ôl i fyny i'r electrod arall; mae'r cerrynt sy'n mynd rhwng yr electrodau yn fach a bas. O ganlyniad, mae'r meinwe yn yr ardal i'w thrin yn cael ei wresogi'n llai dwfn a llai dwys nag un pegwn (RF). Mewn triniaeth esthetig, mae RF

deubegwn fel arfer wedi ei gyfuno gyda ffynonellau seiliedig ar olau neu egni, yn cynnwys laser, golau pwls dwys, golau isgoch neu gyda chymorth gwactod. Mae golau isgoch yn gwresogi'r meinwe i lawr i'r dermis dwys ac yn cynhesu'r meinwe er mwyn gwella treiddiad (RF).

**Sbectrwm electromagnetig**

Mae'r sbectrwm electromagnetig yn cynnwys dau brif fath o belydriad. Uwch fioled, a ddefnyddir yn bennaf ar gyfer effeithiau lliw haul ac isgoch a ddefnyddir fel modd o gynhesu'r meinwe i ddibenion therapiwtig.

**Amlder radio (RF) un pegwn**

I ddibenion triniaethau esthetig, cyflenwir amlder radio un pegwn trwy osod un electrod i'r ardal i'w thrin ac electrod gwrthwynebol sy'n gymharol bell fel bod y cerrynt yn mynd yn ddwfn trwy'r corff. Defnyddir RF un pegwn i ddelio â'r broblem o lacrwydd croen trwy gyflenwi ynni RF i dynhau'r croen gan oeri'r cyswllt i ddiogelu'r epidermis.

*

*Amlder radio (RF) tri phegwn**

Mae technoleg RF tri phegwn yn trin llid yr isgroen ar wraidd y broblem. Mae ffurfweddiad tri phegwn yn cynhesu'r celloedd braster dan y croen yn ddetholus heb effeithio'n andwyol ar y meinwe amgylchynol, gan gynyddu metaboledd a secretiad braster hylifol.  Ar yr un pryd, mae'n cynhesu haenau dwfn ac arwynebol o fraster, trwy gyfuno effeithiau deuol RF un pegwn ac RF deubegwn mewn un taenwr.

Darparu triniaethau amlder radio cosmetig

| | |
|---|---|
| **Datblygwyd gan** | SkillsActive |
| **Dyddiad cymeradwyo** | 01 Ion 2015 |
| **Dyddiad Adolygu Dangosol** | 31 Maw 2020 |
| **Dilysrwydd** | Ar hyn o bryd |
| **Statws** | Gwreiddiol |
| **Sefydliad cychwynnol** | SkillsActive |
| **RCU gwreiddiol** | SKAB36 |
| **Galwedigaethau perthnasol** | Therapydd Harddwch |
| **Cyfres/Set** | Therapi Harddwch |
| **Geiriau Allweddol** | cosmetig; radio; amlder; amlder radio; |